OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 1570 (Cy.181)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Crucywel i Drecastell, Powys) (Gwaharddiad Traffig a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011

*Gwnaed 21 Mehefin 2011*

*Yn dod i rym 1 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Llundain - Abergwaun (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt;

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn:

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Crucywel i Drecastell, Powys) (Gwaharddiad Traffig a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o Gefnffordd yr A40 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.